OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 233 (Cy. 52)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol a Chofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *12 Chwefror 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *13 Chwefror 2019* |
| *Yn dod i rym - -* | *29 Ebrill 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 6(1)(d), 10(4), 11(3)(a)(iii) a 187(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol a Chofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 29 Ebrill 2019.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliadau Cofrestru" ("*the Registration Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017(**2**);

ystyr "y Rheoliadau Datganiadau Blynyddol" ("*the Annual Returns Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017(**3**).

### Diwygiadau i'r Rheoliadau Datganiadau Blynyddol

**2.** Mae'r Rheoliadau Datganiadau Blynyddol wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 5.

### Gwybodaeth arall

**3.** Yn rheoliad 6, ar ôl "gwasanaeth cymorth cartref" mewnosoder ", gwasanaeth mabwysiadu, gwasanaeth maethu, gwasanaeth lleoli oedolion neu wasanaeth eirioli".

(**1**) 2016 dccc 2; *gweler* y diffiniad o "a ragnodir" a "rhagnodedig" yn adran 189.
(**2**) O.S. 2017/1098 (Cy. 278).
(**3**) O.S. 2017/1097 (Cy. 277).

**Amser ar gyfer cyflwyno'r datganiadau blynyddol cyntaf**

**4.** Ar ôl rheoliad 9 mewnosoder—

"**Amser ar gyfer cyflwyno'r datganiadau blynyddol cyntaf**

**9A.**—(1) Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sydd wedi eu cofrestru i ddarparu gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel, gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd neu wasanaeth cymorth cartref gyflwyno'r set gyntaf o ddatganiadau blynyddol yn 2020.

(2) Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sydd wedi eu cofrestru i ddarparu gwasanaeth mabwysiadu, gwasanaeth maethu, gwasanaeth lleoli oedolion neu wasanaeth eirioli gyflwyno'r set gyntaf o ddatganiadau blynyddol yn 2021.

(3) Os yw darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaethau a restrir ym mharagraffau (1) a (2), nid oes angen i ddatganiad blynyddol gynnwys gwybodaeth mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny sydd wedi eu rhestru ym mharagraff (2) tan 2021."

**Yr Atodlen**

**5.** Yn yr Atodlen, ym mharagraff 5—

(a) yn is-baragraff (j), yn lle "." rhodder ";";

(b) ar ôl is-baragraff (j) mewnosoder y canlynol—

"ond nid yw is-baragraffau (d), (e), (h) ac (i) yn gymwys os nad yw darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru ond i ddarparu gwasanaeth mabwysiadu, gwasanaeth maethu, gwasanaeth lleoli oedolion neu wasanaeth eirioli."

**Diwygiadau i'r Rheoliadau Cofrestru**

**6.** Mae'r Rheoliadau Cofrestru wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 7 i 11.

**Yr wybodaeth sydd i'w darparu gan ymgeisydd**

**7.** Yn rheoliad 3(c), yn lle "ohono" rhodder "mewn perthynas ag ef".

**Yr wybodaeth sydd i'w darparu gan ddarparwr gwasanaeth i amrywio cofrestriad – adran 11(1)(a)(i) a (ii)**

**8.** Yn rheoliad 6(c), yn lle "ohono" rhodder "mewn perthynas ag ef".

**9.** Yn rheoliad 7(c), yn lle "o fan" rhodder "mewn perthynas â man".

**Atodlen 1 –yr wybodaeth sy'n ofynnolam y gwasanaeth sydd i'w ddarparu**

**10.** Yn Atodlen 1, ar ôl paragraff 31 mewnosoder—

"**31A.** Yn achos gwasanaeth mabwysiadu, gwasanaeth maethu, gwasanaeth lleoli oedolion neu wasanaeth eirioli, y dyddiad y bwriedir dechrau darparu'r gwasanaeth mewn perthynas â phob man a bennir yn y cais."

**Atodlen 2 – yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn datganiad o ddiben**

**11.** Yn Atodlen 2, ar ôl paragraff (e) mewnosoder—

"(ea) yn achos gwasanaeth mabwysiadu, gwasanaeth maethu, gwasanaeth lleoli oedolion neu wasanaeth eirioli—

(i) enw'r gwasanaeth;

(ii) yr ardal y darperir y gwasanaeth mewn perthynas â hi;

(iii) cyfeiriadau'r swyddfa neu'r swyddfeydd y darperir y gwasanaeth ohoni neu ohonynt;

(iv) cyfeiriadau unrhyw swyddfa arall neu unrhyw swyddfeydd eraill a ddefnyddir mewn cysylltiad â darparu'r gwasanaeth;".

*Julie Morgan*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

12 Chwefror 2019

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 ("y Rheoliadau Datganiadau Blynyddol") a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 ("y Rheoliadau Cofrestru").

Mae rheoliad 6 (gwybodaeth arall) o'r Rheoliadau Datganiadau Blynyddol wedi ei ddiwygio i gynnwys y darparwyr gwasanaethau hynny sydd wedi eu cofrestru i ddarparu gwasanaeth mabwysiadu, gwasanaeth maethu, gwasanaeth lleoli oedolion neu wasanaeth eirioli, i gyflwyno gwybodaeth ychwanegol, fel y'i pennir yn yr Atodlen, fel rhan o'u datganiad blynyddol.

Mae rheoliad 9A (amser ar gyfer cyflwyno'r datganiadau blynyddol cyntaf) wedi ei fewnosod i bennu'r flwyddyn y mae'r set gyntaf o ddatganiadau blynyddol i'w chyflwyno gan briod ddarparwyr gwasanaethau.

Mae paragraff 5 o'r Atodlen (gwybodaeth am staffio) wedi ei ddiwygio i wahaniaethu rhwng categorïau'r swyddi sydd wedi eu llenwi a'r swyddi gwag y mae'n ofynnol i briod ddarparwyr gwasanaethau eu cynnwys yn y datganiad blynyddol.

Mae Atodlen 1 (yr wybodaeth sy'n ofynnol am y gwasanaeth sydd i'w ddarparu) o'r Rheoliadau Cofrestru wedi ei diwygio i gynnwys y darparwyr gwasanaethau hynny sydd wedi eu cofrestru i ddarparu gwasanaeth mabwysiadu, gwasanaeth maethu, gwasanaeth lleoli oedolion neu wasanaeth eirioli.

Mae Atodlen 2 (yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn datganiad o ddiben) wedi ei diwygio i gynnwys y darparwyr gwasanaethau hynny sydd wedi eu cofrestru i ddarparu gwasanaeth mabwysiadu, gwasanaeth maethu, gwasanaeth lleoli oedolion neu wasanaeth eirioli.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.